

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1.1 CYFLWYNIAD

Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, i fod yn nhw eu hunain ac i fyw bywydau heb gael eu gwahaniaethu. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn werthoedd craidd i Lywodraeth Cymru ac mae ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol yn golygu bod rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol a gwerthfawrogi amrywiaeth yng Nghymru. Wrth i ni ddod allan o argyfwng Covid-19, mae angen y gwerthoedd hyn yn fwy nag erioed i greu Cymru decach, fwy ffyniannus a mwy cyfartal.

Yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf, mae cydraddoldeb wedi gwella'n sylweddol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a chwiar/cwestiynu (LHDTC+) yng Nghymru a ledled y DU.

Mae newidiadau i ddeddfwriaeth wedi golygu bod ysgolion, sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus bellach yn gwneud llawer mwy i fynd i'r afael ag achosion o fwlio a gwahaniaethu pobl LHDTC+. Mae priodasau cyfartal a hawliau mabwysiadu bellach yn realiti i lawer, ac mae Adran 28 (deddf a basiwyd yn 1988 a waharddodd cynghorau ac ysgolion rhag addysgu derbynioldeb cyfunrhywiaeth fel perthynas deuluol honedig) yn hen hanes.

Fodd bynnag, mae achosion o wahaniaethu'n parhau i fod yn realiti ym mywydau llawer o bobl LHDTC+. Mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n rhwystro eu cyfleoedd bywyd, eu rhagolygon, a'u canlyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob person sy'n LHDTC+ yng Nghymru fyw bywydau mor llawn â phosibl – i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i greu *Cynllun Gweithredu LHDTC+*. Mae'r cynllun trawslywodraethol uchelgeisiol hwn yn nodi'r camau pendant rydym y byddwn yn eu cymryd i wella amodau bywyd pobl LHDTC+, i herio achosion o wahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae'n ddiogel i bobl LHDTC+ fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

1.2 GWAELODLIN DEMOGRAFFIG

Rydym wedi gweld newid enfawr mewn agweddau cadarnhaol tua gymunedau LHDTC+ ac mewn perthynas â chynnwys pobl LHDTC+. Gallai hyn fod wedi'i adlewyrchu yng nghyfran y boblogaeth yng Nghymru sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) sydd wedi

cynyddu'n raddol o 1.3% yn i 2012 i 2.0% yn 2017¹. Er bod y llwyddiannau hyn i'w dathlu, mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

Yn 2019, adroddodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) fod 94.4% o'r boblogaeth dros 16 oed yng Nghymru yn ystyried eu hunain yn heterorywiol, 1.9% yn hoyw/lesbiaidd, 1.0% ddeurywiol, 1.0% yn 'arall' ac ni wnaeth 1.7% roi ateb (StatsCymru, 2021²). Mae hyn yn gynydd o 1.3% yn nifer y bobl sy'n ystyried eu hunain yn LHD ers 2014 (o 1.6% yn 2014 i 2.9% yn 2019). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod arolygon poblogaeth ar raddfa fawr fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn debygol o dangofnodi faint o bobl sy'n ystyried eu hunain yn LHDT+ am nad yw cyfranogwyr eisiau datgelu eu rhywedd a'u hunaniaeth rywiol mewn ystadegau swyddogol er enghraifft, neu oherwydd heriau methodolegol eraill (Gweler Jans, Wilson a Herman, 2018³).

Fe wnaeth yr arolwg LHDT cenedlaethol roi'r opsiwn i gyfranogwyr ddiffinio eu hunain sy'n caniatáu olrhain rhai o'r hunaniaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2018⁴). O'u sampl LHDTQ+ ar gyfer Cymru, roedd 61.3% yn ystyried eu hunain yn hoyw neu lesbiaidd, 26.1% yn ddeurywiol, 1.8% yn arywiol, 4.3% yn banrywiol, 1.1% yn cwiar a 2% yn 'arall'.

Hyd nes rhyddhau Cyfrifiad 2021, nid oes ystadegau swyddogol sy'n cofnodi nifer y bobl draws yng Nghymru a Lloegr. Amcangyfrifwyd yn ofalus bod tua 200,000-500,000 o bobl sy'n ystyried eu hunain yn bobl draws yn y DU (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2018⁵).

Nid yw'r ONS yn cyhoeddi data ar faint o fabanod rhyngrywiol sy'n cael eu geni oherwydd y nifer fach sydd wedi'u cofrestru fel rhyngrywiol ar eu tystysgrifau geni (ONS, 2017⁶). Felly, mae amcangyfrifon ar gyfer poblogaethau rhyngrywiol yn amrywio. Er enghraifft, roedd amcangyfrif a ddyfynnwyd yn helaeth yn awgrymu bod nifer y bobl rhyngrywiol ar draws y byd hyd at 1.7% (Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol, 2019⁷).

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) *Sexual orientation, UK: 2017*.

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/diversityandidentity/rhywioldeb/bulletins/sexualidentityuk/2017>

² Hunaniaeth rywiol yn ôl blwyddyn (llyw.cymru)

³ Erthygl lawn: *Measuring Aspects of Sexuality and Gender: A Sexual Human Rights Challenge for Science and Official Statistics* (bath.ac.uk)

⁴ Arolwg Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywedol Cenedlaethol: Adroddiad cryno (publishing.service.gov.uk) -> National LGBT Survey Data Viewer - GOV.UK (www.gov.uk)

⁵ Pobl draws yn y DU (publishing.service.gov.uk)

⁶ Nifer y babanod â nodweddion rhyngrywiol - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

⁷ BackgroundNoteHumanRightsViolationsagainstIntersexPeople.pdf (ohchr.org)

HIRDYMOR

Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhoi sylw arbennig i amrywiaeth o anghenion penodol sydd gan bobl LHDT+ a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n profi achosion o wahaniaethu croestoriadol. Mae'n rhoi ystyriaeth benodol i bobl draws a phobl anneuaid, sydd ymhlith y grwpiau sy'n cael eu derbyn leiaf mewn cymdeithas ac sydd fel arfer yn profi mwy o wahaniaethu a thrais nag eraill yn y cymunedau LHDT+. Yn aml mae sawl dimensiwn i achosion o wahaniaethu, ac mae'r cynllun yn mabwysiadu dull croestoriadol er mwyn paratoi'r ffordd at newidiadau cynaliadwy a pharchus mewn cymdeithas.

Wrth ystyried yr argymhellion a gyhoeddwyd gan Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig⁸ ac Arbenigwr Annibynnol y CU ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd⁹, mae'r Cynllun Gweithredu LHDT+ yn nodi cyfres gyffredinol o nodau i wella'r gydnabyddiaeth o bobl LHDT+.

Mae hefyd yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu penodol i bolisi yn ymwneud ag addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Bydd yr asesiad effaith hwn yn darparu ystyriaethau lefel uchel o'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfarwydd ac efallai y bydd angen i adrannau perthnasol gynnal asesiadau effaith pellach i ddatblygu camau gweithredu unigol yn ystod oes y cynllun. Bydd effeithiau'r cynllun yn cael eu hadolygu'n gyson a gellir cynnal asesiad pellach yn ôl yr angen.

Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDT+ a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydarddoldeb prif ffrwd ac amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau (Llywodraeth Cymru 2020a).

ATAL

Yn unol â'n hymrwymiad i greu Cymru sy'n fwy cyfartal, bydd y cynllun yn tynnu sylw at gryfhau hawliau dynol, prif ffrydio cydraddoldeb a blaenoriaethu camau ataliol, traws-lywodraethol sy'n helpu i greu newid diwylliant cadarnhaol a mynd i'r afael ag anghydarddoldebau LHDT+ ar gyfer y tymor hwy. Archwilir yr anghydarddoldebau hyn yn fanwl yn Adran 2.

⁸ Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2015) *Discrimination and violence against individuals based on their sexual orientation and gender identity: Report of the Office of the United Nations High Commissioner for Human Rights* <http://daccess-ods.un.org/access.nsf/Get?Open&DS=A/HRC/29/23&Lang=E>

⁹ Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2021) *Independent Expert on sexual orientation and gender identity*. <https://www.ohchr.org/en/issues/sexualorientationgender/pages/index.aspx>

Mae'r cynnig hwn yn cysylltu ac yn cyfrannu at wahanol agendâu polisi cyhoeddus blaenorol ac yn creu manteision lluosog, yn arbennig:

- Y Bwrdd Cydraddoldeb Strategol¹⁰
- Y Adolygiad o Gydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru¹¹
- Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi¹²
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol¹³
- Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth¹⁴
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl¹⁵
- Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches¹⁶
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol¹⁷
- Strategaeth Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus¹⁸
- Cymru Iachach¹⁹
- Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd²⁰
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru²¹

Mae'n bwysig bod arweinwyr polisi yn ymwybodol o'r *Cynllun Gweithredu LHDTC+* a sut mae'n cysylltu â strategaethau a pholisïau sy'n bodoli eisoes ac yn y dyfodol i wella lles cymdeithasol. Dylai polisïau a strategaethau eraill hefyd ystyried yr anghenion penodol sydd gan bobl LHDTC+ a'r

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2020) *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf>

¹¹ Llywodraeth Cymru (2020) *Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau.pdf>

¹² Llywodraeth Cymru (2019) *Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>

¹³ Llywodraeth Cymru (2021) *Cymru Wrth-Hiliol: Cynllun Cydraddoldeb Hil Cymru [statws drafft]*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol.pdf>

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Cam Dau - Cynllun Gweithredu'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth*

<https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cam-dau-cynllun-gweithredu-rhaglen-amrywiaeth-mewn-democratiaeth>

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2020) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020.pdf>

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2019) *Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches*

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2019) *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol – Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/gweithredu-ar-abledd-yr-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-ar-cynllun-gweithredu.pdf>

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2020) *Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/strategaeth-amrywiaeth-a-chynhwysiant-ar-gyfer-penodiadau-cyhoeddus-yng-nghymru-crynodedb.pdf>

¹⁹ Welsh Government (2019) *Cymru Iachach* <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

²⁰ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd_0.pdf

²¹ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru*

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cymru.pdf>

nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed, a chyfeirio at y cynllun fel rhan o'u hymrwymiaadau i gydraddoldeb prif ffrwd.

CYDWEITHIO A CHYMRYD RHAN

Yn ystod haf 2020, comisiynwyd Stonewall Cymru i gynnal ymgysylltiad cychwynol â rhanddeiliaid i edrych pa themâu pwysig y dylid eu datblygu mewn unrhyw Gynllun Gweithredu LHDTTC+ newydd i Gymru. Daeth Stonewall Cymru i ddysgu am brofiadau bywyd dros 600 o bobl LHDTTC+ drwy arolwg a chyfres o grwpiau ffocws rhithiol. Roedd rhai o negeseuon allweddol yr ymgysylltiad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu pobl LHDTTC+, gwella diogelwch a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig iechyd pobl draws.

Ym mis Tachwedd 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfeirio Allanol LHDTTC+ i roi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith y tîm polisi LHDTTC+. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys unigolion a chynrychiolwyr ar ran y canlynol:

- Prifysgol Aberystwyth
- Bi Cymru
- End Youth Homelessness
- Gisda
- Glitter Cymru
- Hidayah
- LGBT Sport Cymru
- Pride Cymru
- Rainbow Newport
- Romani and Cultural Arts Company
- South Wales Trans and Non-binary Mutual Aid
- Stonewall Cymru
- Awdurdod Lleol Abertawe
- The Gathering
- Transgender Support Wrexham
- Umbrella Cymru
- Unique Trans Gender Network
- Prifysgol De Cymru
- Viva
- Cynghair Cydraddoldeb Cymru
- Gwasanaeth Rhywedd Cymru
- Cynghair Traws Cymru
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN Cymru)
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru.

Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Panel Arbenigol Annibynnol LHDTTC+ llai o faint i adeiladu ar ymgysylltiad cychwynol Stonewall Cymru â rhanddeiliaid a rhoi cyngor strategol ar hyrwyddo

cydraddoldeb LHDTTC+ yng Nghymru. Roedd y panel yn cynnwys unigolion a chynrychiolwyr ar ran y canlynol:

- Race Equality First Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Glitter Cymru
- GIG Cymru
- Pride Cymru
- Stonewall Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Gwasanaethau Rhywedd Cymru.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu Stonewall Cymru i gynnal rhagor o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu'r Panel Arbenigol Annibynnol i ystyried profiadau croestoriadol pobl LHDTTC+. Roedd y trefniadau'n cynnwys grwpiau ffocws bwrdd crwn rhithiol (a oedd yn cynrychioli pobl ifanc LHDTTC+, pobl hŷn, pobl anabl a phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) a rhai trafodaethau ychwanegol gyda sefydliadau gan gynnwys TUC Cymru, WEN Cymru a Llinell Gymorth LHDT Cymru.

Cyflwynodd y Panel 61 o argymhellion ynghyd â'i adroddiad i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bryd hynny, ar ddiwedd mis Mawrth 2021. Roedd adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion cyffredinol a oedd yn canolbwyntio ar ymgorffori hawliau dynol mewn cyfraith ddomestig, ar gydlynu ac integreiddio cynlluniau yn strategol ac ar hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu. Cyhoeddodd yr adroddiad hefyd argymhellion thematig ar gyfer ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys cydnabod pobl draws a phobl anneuaidd, diogelwch, cartrefi a chymunedau, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes, yn y gweithle a chefnogi ymateb COVID-19. Mae'r argymhellion hyn wedi bod yn sail i'r Cynllun Gweithredu drafft.

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ei gynnal ar y Cynllun Gweithredu drafft yn 2021. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r holl randdeiliaid cydraddoldeb a thrwy wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Roedd fersiynau hygyrch o'r ddogfen Cynllun Gweithredu a'r ddogfen ymgynghori ar gael fel a ganlyn:

- Fersiwn hawdd ei ddarllen
- Fersiwn plant a phobl ifanc
- Fideo Iaith Arwyddion Prydain gydag isdeitlau dwyieithog.

Ystyriwyd yn ofalus adborth gan unrhyw sefydliadau ac unigolion oedd â diddordeb yn y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ er mwyn sicrhau ei fod nid yn unig yn gynllun uchelgeisiol ond ei fod yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb i bawb yng Nghymru ac nad yw'n erydu hawliau unrhyw grŵp. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad.

1.4 EFFAITH

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir: hawliau dynol yw hawliau LHDTQ+. Mae ein Cynllun Gweithredu LHDTQ+ yn arwydd o'n hymrwymiad i barchu, diogelu a sicrhau hawliau pobl LHDTQ+ yng Nghymru. Ategir y cynllun gan y dull seiliedig ar hawliau a nodir gan Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig²² ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd²³. Mae'n helpu i sicrhau hawliau gwarantiedig i bobl LHDTQ+ drwy'r canlynol:

- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Wrth wneud hynny, bydd y Cynllun Gweithredu yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar brofiadau bywyd pobl LHDTQ+ a bydd yn gwella canlyniadau ar draws ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys addysg, iechyd a chyfiawnder. Mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y cynllun yn gwneud cyfraniad pwysig at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei swyddogaeth o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTQ+ a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydaddoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau (Llywodraeth Cymru 2020a).

Er bod agweddau'r cyhoedd at bobl drawsryweddol yn gadarnhaol ar y cyfan²⁴, cydnabyddir y gellid ymddangos bod posibilrwydd i'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+ drafft (yn enwedig polisïau cydnabod trawsrywedd a thraws-gynhwysol) gael effaith negyddol ar rai o hawliau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill.

²² Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2015) *Discrimination and violence against individuals based on their sexual orientation and gender identity Report of the Office of the United Nations High Commissioner for Human Rights* https://www.un.org/en/ga/search/view_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E

²³ Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2021) *Independent Expert on sexual orientation and gender identity*. <https://www.ohchr.org/en/issues/sexualorientationgender/pages/index.aspx>

²⁴ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) *Attitudes to transgender people* https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/attitudes_to_transgender_people.pdf

Prif fyrdwn y pryderon a fynegwyd gan rai pobl yw'r dryswch canfyddedig rhwng 'rhyw' a 'rhywedd' ym mholisi'r llywodraeth a sut y gallai camddehongli'r nodweddion hyn (a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) fod yn gam nol o ran amddiffyniadau i fenywod a merched. Mae enghreifftiau o'r pryderon a fynegwyd ac a ystyriwyd eisoes yn cynnwys ofnau y byddai cyfyngiadau ar fynediad i fannau diogel menywod gan arwain at fwy o risg o gamdriniaeth i fenywod, cyfyngiadau ar ryddid mynegiant ac erydiad ar hawliau menywod a merched.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pryderon hyn ac mae o'r farn na fydd cefnogaeth i bobl draws a chyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn arwain at erydu hawliau menywod a merched. Yn hytrach mae'n rhan o'n dull o gryfhau mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb. Bydd ymestyn yr amddiffyniadau i bobl anneuaid a thraws drwy'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+ yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau a osodir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)²⁵ ²⁶. Mae Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd yn cefnogi'r safbwynt hwn, gan ddod i'r casgliad canlynol yn ei adroddiad thematig ar Hunaniaeth Rhywedd:

[paragraff 84]: *“The work to address and ultimately eradicate violence and discrimination based on sexual orientation and gender identity is not in opposition to the human rights of women; on the contrary, these areas of concern are largely overlapping and conceptually, socioeconomically, politically and legally reinforce each other.*

[paragraff 91]: *...: States [should] provide access to legal recognition of gender identity in a manner consistent with the rights to freedom from discrimination, equal protection of the law, privacy, identity and freedom of expression, and adopt all necessary measures so that such recognition:*

- a) Is based on self-determination by the applicant;*
- b) Is a simple administrative process;*
- c) Is not connected with abusive requirements, such as medical certification, surgery, treatment, sterilization or divorce;*
- d) Includes the acknowledgement and recognition of non-binary identities in their full diversity and specificity;*
- e) Ensures that minors have access to recognition of their gender identity.”*²⁷

O ran bod traws-gynhwysiant yn cyfyngu ar fynediad i fannau diogel menywod, mae diffyg tystiolaeth ynghylch effeithiau gwirioneddol traws-gynhwysiant mewn gwasanaethau²⁸. Nid yw

²⁵ Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1979) *Articles 1 and 2 of UN CEDAW* <https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CEDAW.aspx>

²⁶ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (2010) *General Recommendation No. 28 on the core obligations of State parties under article 2 of the Convention on the Elimination of All Forms of Discrimination against Women* <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G10/472/60/PDF/G1047260.pdf?OpenElement>

²⁷ Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2021) *The law of inclusion* <https://undocs.org/A/HRC/47/27>

²⁸ Gottschalk, L. (2009) *‘Transgendering women’s space: A feminist analysis of perspectives from Australian women’s services’* Fforwm Rhyngwladol Astudiaethau Menywod, 32(3): 167-178

Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau gwahardd menywod traws o wasanaethau neu fannau yn gyffredinol, a gwrthodwyd caniatâd i AEA v EHRC adolygu'n farnwrol y canllawiau'n ymwneud â gwasanaethau un rhyw. Yn hytrach, mae tystiolaeth yn amlygu'r angen am asesiadau unigol a theilwra gwasanaethau ar gyfer anghenion pob unigolyn²⁹. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb eisoes yn caniatáu i bobl draws gael eu heithrio o wasanaethau un rhyw mewn rhai amgylchiadau³⁰. Fodd bynnag, dylid ystyried eithriad o'r fath fesul achos a dim ond fel ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Ategir hyn gan farn Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd:

[paragraff 40]: *“the evidence does not support the contention that legal recognition of gender identity can be seen as contrary to the struggle for equality, to the rights of women or to the rights of cis women. The Independent Expert is not persuaded by the allegation that these arguments are grounded in human rights-based approaches. They overwhelmingly appear to rely on anecdotal evidence, some of which would relate to some allegations of abuse, but most of which build on deeply discriminatory stereotypes of trans and gender-diverse persons, and overwhelmingly of trans women. This is the case, for example, of the claim that legal recognition of trans women per se threatens safe spaces, which appears to draw on stigma about predatory determinism. Statistical evidence or analysis does not support the contention that legal recognition of trans girls represents a blanket threat to development through sports, a notion that circularly seeks to rely upon but also to justify the harmful and offensive contention that trans girls are not girls. The idea that legal recognition of the existence of trans women creates a threat of erasure of the concerns of cis women disregards the duty of the State to consider all relevant angles of intersectional analysis, including gender identity, in the formulation of policy.”*³¹

Wrth ystyried pryderon posibl y bydd traws-gynhwysiant yn arwain at y risgiau cynyddol o gamdriniaeth i fenywod, nid yw Llywodraeth Cymru wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad bod menywod traws yn fwy tebygol na menywod nad ydynt yn traws i ymosod yn rhywiol ar fenywod eraill mewn mannau i fenywod yn unig. Mae diffyg tystiolaeth (cyfreithiol, meddygol neu fel arall) i gefnogi'r nodweddiad 'gwyrdroëdig' neu rheibus hwn o fenywod traws³². Gallai fod pryderon ychwanegol y gallai dynion rheibus sy'n honni eu bod yn fenywod traws geisio cael mynediad i fannau a gwasanaethau i fenywod yn unig am resymau maleisus. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi cysylltiad rhwng mannau i fenywod yn unig sy'n draws-gynhwysol, a dynion cisryweddol yn honni eu bod yn drawsryweddol er mwyn cael mynediad i'r mannau hyn i gyflawni trais rhywiol.

²⁹ Dunne, P. (2017) '(Trans)forming single gender services and communal accommodations'. Astudiaethau Cymdeithasol a Chyfreithiol, 26(5).

³⁰ Paragraff 28, Atodlen 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3>

³¹ Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2021) *The law of inclusion*. <https://Undocs.org/47/27>

³² Eckes, S. (2017) 'The restroom and locker room wars: Where to pee or not to pee'. *Journal of LGBT Youth*. 14:3–324): 247-265.

Yn ogystal, rydym wedi asesu y gall y Cynllun Gweithredu LHDTQ+ effeithio ar faterion sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant ar sail cred a ffydd. Fodd bynnag, er bod yr hawl i ddal cred yn absoliwt, mae'r hawl i arddangos cred grefyddol neu athronyddol yn un amodol. Fodd bynnag, gall fod angen cyfiawnhau ymyrraeth â'r hawl amodol hon yn y cynllun mewn cymdeithas ddemocrataidd ar sail diogelwch y cyhoedd, iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill. Er enghraifft:

- Rhyddid mynegiant a chredoau rhywedd-feirniadol

Dyfarnodd tribiwnlys yn Llundain yn 2021 fod credoau rhywedd-feirniadol yr hawlydd yn gyfystyr â chred athronyddol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 (Forstater v CDG Europe UKEAT/0105/20/JOJ). Mae rhai'n pryderu y bydd y dyfarniad yn gadael grwpiau ymylol (yn enwedig pobl draws) yn fwy agored i wahaniaethu ac aflonyddu. Roedd y tribiwnlys apêl yn glir iawn wrth ddatgan er bod yr hawliwr wedi cael amddiffyniad rhag gwahaniaethu mewn perthynas â'i nodwedd warchoddedig sy'n gysylltiedig â'i chred, y bydd serch hynny'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gwaharddiadau ar wahaniaethu ac aflonyddu sy'n berthnasol i bawb arall. Mae'r dyfarniad yn ei gwneud yn glir:

- nad yw'r penderfyniad yn golygu bod pobl draws yn destun hawliau llai
- nad yw'n golygu bod pobl sydd â safbwyntiau beirniadol ar sail rhywedd yn rhydd i gamryweddu neu wahaniaethu yn erbyn pobl draws.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir – ni fydd cefnogaeth i bobl draws a chyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTQ+ yn arwain at erydu hawliau unrhyw grŵp penodol, yn hytrach mae'n ffurfio rhan o'n dull o gryfhau cydraddoldeb ac amddiffyniadau hawliau dynol i bawb.

- Rhyddid o ran arferion crefyddol yn sgil gwaharddiad ar therapi trosi ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol mewn ysgolion

Gall cynnig yn y cynllun i wahardd arferion therapi trosi effeithio ar ryddid crefyddol a rhoi arweinwyr ffydd mewn perygl o gael eu herlyn. Fodd bynnag, mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir - mae unrhyw ymdrechion i geisio newid neu newid cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd person trwy arferion trosi yn anghywir ac yn gwbl annerbyniol. Gall yr arferion hyn achosi poen a dioddefaint difrifol i bobl LHDTQ+, gan arwain yn aml at drawma corfforol a seicolegol hirdymor. Rydym am i bob person LHDTQ+ yng Nghymru deimlo'n ddiogel a gallu byw'n agored fel nhw eu hunain. Felly, mae'r cynllun gweithredu yn ceisio defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i wahardd therapi trosi (gan gymryd i ystyriaeth a gweithio gyda mesurau polisi tebyg ar draws y gwledydd datganoledig) er mwyn amddiffyn pobl LHDTQ+ ac atal niwed, cam-drin a thrawma yn y dyfodol.

Gallai'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+ hefyd wynebu heriau o ran cynnwys ein hymrwymiad parhaus i sefydlu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n trafod LHDTQ+ yn y cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod gan bob dysgwr yr hawl i gael mynediad

llawn i'r cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal ymgynghoriad sylweddol ac asesiad effaith ar y cynnig polisi hwn yng nghyd-destun rhyddid a ffydd grefyddol. Rydym yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid cymunedol LHDTQ+ a chymunedau ffydd i gyd-gynhyrchu Codau Ymarfer newydd ar gyfer 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' a 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'.

1.5 COSTAU AC ARBEDION

Mae'r camau gweithredu yn y cynllun wedi'u costio gan adran berthnasol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bob cam, a byddant yn cael eu hariannu drwy'r broses fusnes arferol. Mae ffocws y cynllun yn ymwneud â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan ganiatáu i bobl allu byw bywydau mor llawn â phosibl - i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

1.6 MECANWEITHIAU

- ◆ Nid oes deddfwriaeth yn cael ei chynnig i weithredu'r Cynllun Gweithredu ar hyn o bryd.

SUT MAE'R BOBL Y MAE'R CYNNIG YN FWYAF TEBYGOL O EFFEITHIO ARNYNT WEDI BOD YN RHAN O'I DDATBLYGU?

Y Cynllun Gweithredu LHDTQ+ yw ein cynllun cyntaf i ganolbwyntio ar ymateb i anghenion penodol ac amrywiaeth ein cymunedau LHDTQ+ a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Am y tro cyntaf, byddwn yn dwyn ynghyd ein hymrwymiaadau presennol i bobl LHDTQ+ ac yn canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais i greu'r wlad fwyaf cynhwysol o ran LHDTQ+ yn Ewrop, gan fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol a herio gwahaniaethu LHDTQ+ yn y dyfodol.

Yn ystod haf 2020, comisiynwyd Stonewall Cymru i gynnal ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid i edrych pa themâu pwysig y dylid eu datblygu mewn Cynllun Gweithredu LHDTQ+ newydd i Gymru. Daeth Stonewall Cymru i ddysgu am brofiadau bywyd pobl LHDTQ+ drwy arolwg (dros 600 o ymatebwyr) a chyfres o grwpiau ffocws rhithiol. Roedd rhai o negeseuon allweddol yr ymgysylltiad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu pobl LHDTQ+, gwella diogelwch a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig iechyd pobl draws.

Ym mis Tachwedd 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfeirio Allanol LHDTQ+ er i roi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith y tîm polisi LGBTQ. Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Panel Arbenigol Annibynnol LHDTQ+ llai o faint i adeiladu ar ymgysylltiad cychwynnol Stonewall Cymru â rhanddeiliaid, gan roi cyngor strategol ar hyrwyddo cydraddoldeb LHDTQ+ yng Nghymru.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu Stonewall Cymru i gynnal rhagor o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu'r Panel Arbenigol Annibynnol i ystyried profiadau croestoriadol pobl LHDTQ+. Roedd y trefniadau'n cynnwys grwpiau ffocws bwrdd crwn rhithiol (yn cynrychioli pobl ifanc LHDTQ+, pobl hŷn, pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) a rhai trafodaethau ychwanegol gyda sefydliadau gan gynnwys TUC Cymru, WEN Cymru a Llinell Gymorth LHDT Cymru.

Cyflwynodd y Panel Arbenigol Annibynnol ei adroddiad a 61 o argymhellion i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bryd hynny, ar ddiwedd mis Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion cyffredinol a oedd yn canolbwyntio ar ymgorffori hawliau dynol mewn cyfraith ddomestig, ar gydlynu ac integreiddio cynlluniau yn strategol, ac ar hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu. Roedd hefyd yn cynnwys argymhellion thematig ar gyfer ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys cydnabod pobl draws a phobl anneuaid, diogelwch, cartrefi a chymunedau, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes, y gweithle a chefnogi'r ymateb i COVID-19. Roedd yr argymhellion hyn yn sail i'r Cynllun Gweithredu drafft.

Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu drafft o fis Gorffennaf i fis Hydref 2021 wedi cyfrannu ymhellach at ei ddatblygiad ac wedi helpu i gyflawni ein swyddogaethau o ran

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus³³ (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant drwy geisio mynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

BETH YW'R EFFEITHIAU CADARNHAOL A NEGYDDOL MWYAF ARWYDDOCAOL?

Bydd llawer o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan y Cynllun Gweithredu hwn, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn ac nid yw wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill.

PLANT A'U CYNRYCHIOLWYR

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+ yn nodi cyfres o gynigion sydd â'r nod o gefnogi llesiant plant a phobl ifanc LHDTQ+ a'r hawliau a warentir iddynt gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Er enghraifft:

- Datblygu canllawiau i gefnogi dysgwyr traws (Erthyglau 2, 8 a 29)
- Gwella mynediad i fannau diogel a gwasanaethau cymorth ieuencid cynhwysol (Erthyglau 13 a 15)
- Gwella mynediad plant a phobl ifanc at gymorth hunaniaeth rhywedd (Erthyglau 8 a 24); a,
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol o ran pobl LHDTQ+ yn y cwricwlwm newydd (Erthygl 29).

Mae'r gwaith cychwynnol o ddatblygu a drafftio'r cynllun hefyd wedi ystyried Erthygl 12 o'r CCUHP ac mae wedi helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy grwpiau trafod bwrdd crwn rhithiol. Yn ogystal, cynrychiolwyd nifer o sefydliadau ieuencid LHDTQ+ yn ein trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafodd plant a phobl ifanc gyfleoedd pellach i leisio eu barn yn ystod cam ymgynghori ffurfiol y cynllun. Mae adborth o'r cyfnod ymgynghori wedi'i ddefnyddio i lunio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

SIARADWYR CYMRAEG A GRWPYAU ARBENIGOL AR Y GYMRAEG

Roedd yr ymgynghoriad ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg, Saesneg, BSL ac ieithoedd cymunedol eraill. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol Cymraeg yn benodol, ac fe wnaethom weithio gyda sefydliadau partner i'w gwahodd i ymgynghori â ni. Cafodd eu mewnbwn ei fwydo i nodau a chymau gweithredu penodol mewn

³³ EHRC (2015) Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru
<https://www.equalityhumanrights.com/cy/advice-and-guidance/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-yng-nghymru>

perthynas â'r Gymraeg yn y Cynllun, er y bydd nodau a champau gweithredu ar draws y gwahanol feysydd polisi yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg.

YNG NGOLEUNI'R EFFEITHIAU A NODWYD, SUT BYDD Y CYNNIG:

YN SICRHAU'R CYFRANIAD MWYAF POSIBL AT EIN HAMCANION LLESIANT A'R SAITH NOD LLESIANT

Bydd creu Cymru fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial a chyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae cysylltiad amlwg rhwng y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+ a'r nod hwn. Datblygwyd y Cynllun yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn bwysicach na dim, drwy fod yn gynhwysol a chydweithio, mae profiad uniongyrchol pobl LHDTQ+ yn ganolog i gynnwys y Cynllun.

YN OSGOI, LLEIHAU NEU LINIARU UNRHYW EFFEITHIAU NEGyddOL?

Ni ragwelwyd unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol o ganlyniad i gyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTQ+. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i barchu, diogelu a gwireddu hawliau pobl LHDTQ+ a warentir iddynt gan ystod o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol. Fodd bynnag, gallai'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+ fod yn destun nifer o gamsyniadau a heriau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- canfyddiad o gymryd cam yn ôl neu gyfnewid amddiffyniadau i fenywod a merched
- ymyrraeth bosibl â rhyddidau crefyddol a'r hawl i arddangos cred.

Er bod y cynllun yn canolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTQ+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydaddoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.

SUT BYDD EFFAITH Y CYNNIG YN CAEL EI FONITRO A'I WERTHUSO WRTH IDDO FYND RHAGDDO A PHAN DDAW I BEN

Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu LHDTQ+ fod yn ddogfen fyw. Bydd yn bwydo i benderfyniadau a gwahanol adrannau polisi ar draws Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'i gamau gweithredu. Bydd swyddogion sy'n gweithio yn y meysydd polisi hynny yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Dîm Cydraddoldeb canolog a darperir diweddariad cynnydd blynyddol i'r Senedd. Bydd gan yr Uned Data Cydraddoldeb arfaethedig rôl hefyd, a yn gwella'r broses o gasglu a defnyddio data a thystiolaeth. Mae llawer o'r camau gweithredu yn y Cynllun hefyd yn ceisio gwella data a thystiolaeth er mwyn penderfynu a yw polisiâu'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae cyd-awduro wedi bod yn egwyddor bwysig ar gyfer datblygu'r Cynllun a bydd cynnwys profiadau uniongyrchol pobl yr un mor bwysig wrth ei weithredu.

A. ASESIAID O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau i'r blwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru

AMCANION POLISI

Cyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTTC+ i Gymru

CASGLU TYSTIOLAETH AC YMGYSYLLTU Â PHLANT A PHOBL IFANC

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn nodi cyfres o gynigion sydd â'r nod o gefnogi llesiant plant a phobl ifanc LHDTTC+ a'r hawliau a warentir iddynt gan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Er enghraifft:

Erthyglau CCUHP neu Protocol Dewisol	Yn gwella (X)	Yn herio (X)	Esboniad
Gwella mynediad at fannau diogel a gwasanaethau cymorth ieuencid cynhwysol (Erthyglau 13 a 15)	X		<p>Mae camau gweithredu yn y Cynllun yn cyfeirio'n uniongyrchol at bobl ifanc LHDTTC+ yn gallu cael mynediad at wasanaethau gwaith ieuencid sy'n berthnasol iddynt, a bod ganddynt fannau diogel i fynd iddynt. Nod hyn yw gwella'r sector gwaith ieuencid LHDTTC+.</p> <p>Yn fwy penodol, mae'r Cynllun yn awgrymu ymgysylltu â'r sector gwaith ieuencid i wella mynediad at ddarpariaeth gwaith ieuencid a manau diogel i bobl ifanc sydd â chefnidiroedd ac anghenion gwahanol, gan gynnwys pobl ifanc LHDTTC+, a mwy o amrywiaeth o fewn y gweithlu gwaith ieuencid.</p>

Datblygu canllawiau i gefnogi dysgwyr traws (Erthyglau 2, 8 a 29)	X		Bydd canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion yn eu galluogi i ddiwallu anghenion penodol plant a phobl ifanc draws.
Gwella mynediad plant a phobl ifanc at gymorth hunaniaeth rhywedd (Erthyglau 8 a 24)	X		Bydd adolygu'r gefnogaeth a ddarperir i wasanaethau sy'n cefnogi plant sydd â dysfforia rhywedd a darparu gwasanaethau y mae adolygiad o'r fath yn eu hargymell yn helpu plant traws a phobl sydd â rhywedd amrywiol.
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol o ran pobl LHDTc+ yn y cwricwlwm newydd (Erthygl 29)	X		Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol o ran pobl LHDTc+ yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu deall pobl a pherthnasoedd LHDTc+ a lleihau rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn plant LHDTc+.

Mae'r gwaith cychwynnol o ddatblygu a drafftio'r Cynllun hefyd wedi ystyried Erthygl 12 o CCUHP ac mae wedi helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy grwpiau trafod bwrdd crwn rhithiol. Cynrychiolwyd nifer o sefydliadau ieuentid LHDTc+ hefyd yn ein trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cafwyd cyfleoedd pellach i blant a phobl ifanc leisio eu barn yn ystod cam ymgynghori ffurfiol y Cynllun a chynhyrwyd fersiwn plant a phobl ifanc o'r Cynllun Gweithredu er mwyn meithrin dealltwriaeth a gwella hygyrchedd i'r ymgynghoriad.

DADANSODDI'R DYSTIOLAETH AC ASESU'R EFFAITH

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTc+ yn nodi cyfres o gynigion sydd â'r nod o gefnogi llesiant plant a phobl ifanc LHDTc+ a'r hawliau a warentir iddynt gan CCUHP. Er enghraifft:

- Datblygu canllawiau i gefnogi dysgwyr traws (Erthyglau 2, 8 a 29)
- Gwella mynediad at fannau diogel a gwasanaethau cymorth ieuentid cynhwysol (Erthyglau 13 a 15)
- Gwella mynediad plant a phobl ifanc at gymorth hunaniaeth rhywedd (Erthyglau 8 a 24)
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol o ran pobl LHDTc+ yn y cwricwlwm newydd (Erthygl 29)

Mae'r gwaith cychwynnol o ddatblygu a drafftio'r Cynllun hefyd wedi ystyried Erthygl 12 o CCUHP ac mae wedi helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy

grwpiau trafod bwrdd crwn rhithiol. Cynrychiolwyd nifer o sefydliadau ieuenctid LHDTTC+ hefyd yn ein trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Hunan-niweidio

Mae adroddiad Stonewall Cymru (2017³⁴) am brofiadau myfyrwyr mewn ysgolion yng Nghymru yn awgrymu bod 61% o'r myfyrwyr LHD hynny yng Nghymru nad oeddent yn uniaethu fel traws wedi hunan-niweidio, ac mae'r ffigur hwn yn codi i 77% ar gyfer myfyrwyr traws. Ar ben hynny, mae 25% o fyfyrwyr LHD Cymru yn dweud eu bod wedi ceisio lladd eu hunain. Ar gyfer myfyrwyr traws, mae'r nifer hwn yn cynyddu i 41%.

Mae data o Astudiaeth Cohort y Mileniwm yn dangos anghydraddoldebau mawr o ran iechyd meddwl rhwng pobl ifanc heterorywiol a phobl ifanc LHDTTC+ 17 oed (Patalay a Fitzsimmons, 2021³⁵). Er enghraifft, roedd achosion o hunan-niweidio dros gyfnod o flwyddyn yn gyffredin ymysg 55.8% o leiafrifoedd rhywiol, o'i gymharu ag 20.5% o bobl ifanc heterorywiol. Ar ben hynny, roedd ymdrechion i ladd eu hunain yn ystod eu hoes yn gyffredin ymysg 21.7% o leiafrifoedd rhywiol, o'i gymharu â 5.8% o'r rhai hynny sy'n uniaethu fel heterorywiol.

Canfu ymchwil hydredol gan ddefnyddio data o Astudiaeth Hydredol Avon o Rien i Phlant (ALSPAC) (Oginni et al., 2018³⁶) fod pobl ifanc a oedd yn uniaethu â grŵp lleiafrifoedd rhywiol deirgwaith yn fwy tebygol o hunan-niweidio neu ddweud eu bod yn dioddef meddyliau hunanladdol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â'u cyfoedion heterorywiol. Dangosodd data a gasglwyd pan oedd y bobl ifanc yn 16 oed, fod 17.7% o bobl ifanc heterorywiol wedi dweud eu bod yn hunan-niweidio neu'n dioddef meddyliau hunanladdol, o'i gymharu â 38.9% o leiafrifoedd rhywiol. Adroddwyd canfyddiadau tebyg ar gyfer data a gasglwyd pan oedd y bobl ifanc yn 20 oed, gydag 16.3% o bobl ifanc heterorywiol yn dweud eu bod yn hunan-niweidio neu'n dioddef meddyliau hunanladdol, o'i gymharu ag 36.7% o leiafrifoedd rhywiol. Mae'r awduron yn nodi'n ychwanegol fod ffactorau fel hunan-barch isel a symptomau iselder yn cael effeithiau cyfryngol ar y risg gynyddol hon.

Gan ddefnyddio data o'r Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion (McManus et al., 2014³⁷) i gymharu â'r boblogaeth pobl ifanc gyffredinol, dywedodd 25.7% o fenywod a 9.7% o ddynion

³⁴ Adroddiad Ysgol Cymru (stonewallcymru.org.uk)

³⁵ Psychological distress, self-harm and attempted suicide in UK 17-year olds: prevalence and sociodemographic inequalities | The British Journal of Psychiatry | Cambridge Core

³⁶ Mediators of increased self-harm and suicidal ideation in sexual minority youth: a longitudinal study | Psychological Medicine | Cambridge Core

³⁷ [mental_health_and_wellbeing_in_england_full_report.pdf](https://digital.nhs.uk) (digital.nhs.uk)

rhwng 16 a 24 oed eu bod wedi hunan-niweidio ar ryw adeg. Ymhlith y grŵp oedran hwn, dywedodd tua 19% o ddynion a 34% o fenywod eu bod wedi dioddef meddyliau hunanladdol ar ryw adeg.

Teimlo'n ddiogel

Nododd arolwg o bobl Prydain gan Just Like Us fod 10% o bobl ifanc (11-18 oed) a oedd yn uniaethu fel deurywiol wedi dioddef cyffwrdd rhywiol digroeso yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg (12% ar gyfer merched deurywiol a 5% ar gyfer pobl banrywiol a lesbiaid) (Milsom, 2021). Bechgyn hoyw oedd y lleiaf tebygol o fod wedi dioddef cyffwrdd rhywiol digroeso, gyda'r ffigur yn 5%. Yn ôl data gan Astudiaeth Cohort y Mileniwm, mae pobl ifanc LHDT+ 14 oed yn fwy tebygol o wynebu ymosodiad geiriol, corfforol a rhywiol o'i gymharu â'u cyfoedion heterorywiol (Amos et al., 2020³⁸). Ar ben hynny, maent yn fwy tebygol o gael eu bwlio gan frodyr a chwiorydd, gan gyfoedion ac ar-lein.

Nododd ymchwil ar sampl o bobl Prydain gan Ipsos MORI (2020³⁹) pan ofynnwyd iddynt faint, os o gwbl, o wahaniaethu sydd yn erbyn pobl LHDT+ heddiw, fod 26% ohonynt wedi ymateb gan ddweud 'dim llawer/dim o gwbl' a 60% gan ddweud 'llawer iawn/cryn dipyn'.

Mae canfyddiadau o arolwg o bobl Prydain gan Just Like Us (Milsom, 2021) yn dweud mai dim ond 58% o fyfyrwyr LHDT+ a ddisgrifiodd deimlo'n ddiogel bob dydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn cyn i'r arolwg gael ei gynnal. Mae hyn yn cymharu â 73% ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn uniaethu fel LHDT+, sy'n ffigur uwch o lawer. Dywedodd 43% o fyfyrwyr LHDT+ eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod y flwyddyn cyn ymateb i'r arolwg, o'i gymharu ag 21% o fyfyrwyr nad ydynt yn uniaethu fel LHDT+.

Mae adroddiad Stonewall (2018⁴⁰), sef 'LGBT in Britain: University Report' yn tynnu sylw at faterion unigryw i fyfyrwyr traws ac anneuaid mewn prifysgolion. Er enghraifft, roedd 24% o fyfyrwyr anneuaid ac 16% o fyfyrwyr traws yn teimlo nad oeddent yn gallu gwisgo dillad a oedd yn mynegi eu rhywedd yn y brifysgol. Ar ben hynny, nid oedd 17% o fyfyrwyr prifysgol traws yn gallu defnyddio'r tai bach y byddai'n well ganddynt eu defnyddio. Dywedodd 14% o fyfyrwyr prifysgol LHDT Prydain eu bod yn cael profiadau negyddol gyda'r staff yn eu prifysgol oherwydd eu rhywedd neu eu hunaniaeth rywiol. Mae'r ffigur hwn yn uwch ar gyfer myfyrwyr traws gydag 36% yn dweud eu bod yn cael y profiadau negyddol hyn. Yn ogystal, mae 24% o fyfyrwyr LHDT ethnig lleiafrifol, a 22% o fyfyrwyr LHDT anabl yn dweud eu bod yn cael y profiadau negyddol hyn gyda staff eu prifysgol.

³⁸ CLS | LGB teens at greater risk of poor mental health, new study finds (ucl.ac.uk)

³⁹ Sexual orientation and attitudes to LGBTQ+ in Britain (ipsos.com)

⁴⁰ lgbt_in_britain_universities_report.pdf (stonewall.org.uk)

Nododd adroddiad Stonewall Cymru (2017) am fyfyrwyr ysgol Cymru hefyd nad oedd gan 62% o fyfyrwyr LHDT Cymru athrawon yn yr ysgol yr oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn trafod eu hunaniaeth LHDT â nhw. Ar gyfer myfyrwyr traws, nododd Stonewall Cymru nad oedd 53% yn gallu defnyddio'r tai bach sy'n well ganddynt, ac nad oedd 42% yn gallu cael eu hadnabod gan yr enw sy'n well ganddynt yn yr ysgol (tud. 19).

Dywedodd adroddiad Stonewall Cymru (2017) am fyfyrwyr ysgol Cymru rhwng 11 a 19 oed, fod 54% o fyfyrwyr LHDT a 73% o fyfyrwyr traws wedi cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu hunaniaeth rywiol neu eu rhywedd. Ar ben hynny, nododd yr adroddiad fod 60% o'r ymatebwyr 'yn gyson' neu 'yn aml' yn clywed iaith homoffobig, bod 49% wedi clywed iaith ddeuffobig a bod 51% wedi clywed iaith drawsffobig. Yn ogystal, o'r disgyblion LHDT sy'n dweud eu bod yn cael eu bwlio, mae 47% yn dweud nad ydynt erioed wedi sôn wrth neb am y peth a dim ond 25% sy'n dweud bod athrawon wedi ymyrryd pan fo'r bwlio yn digwydd yn eu presenoldeb.

Camdriniaeth ar-lein

Mae adroddiad Stonewall Cymru (2017), sef LHDT yng Nghymru: Troseddau Casineb a Gwahaniaethu, yn canfod bod 11% o'u sampl o bobl Cymru wedi dweud eu bod wedi profi camdriniaeth ar-lein yn ystod y mis cyn i'r arolwg gael ei gynnal. Mae'r ffigur hwn yn codi i 24% ar gyfer pobl draws a brofodd gamdriniaeth drawsffobig.

Mae adroddiad Stonewall Cymru (2017) am fyfyrwyr ysgol Cymru yn canfod bod 46% o bobl ifanc LHDT Cymru (11-19 oed) wedi profi camdriniaeth yn ymwneud â'u hunaniaeth LHDT ar-lein, gyda 97% yn dweud eu bod yn gweld camdriniaeth homoffobig, ddeuffobig a thrawsffobig ar y we. Mae'r adroddiad hefyd yn canfod nad oedd 60% o bobl ifanc yn credu y byddai platfformau ar-lein yn gweithredu ar homoffobia, biffobia a thrawsffobia pan fyddai'n cael ei adrodd iddynt.

Nododd arolwg o bobl Prydain gan Just Like Us wahaniaethau rhwng hunaniaethau rhywiol a phrofiadau o gam-drin ar-lein (Milsom, 2021). Yn ôl yr arolwg, yn ystod y flwyddyn cyn yr arolwg, profodd 26% o bobl ifanc ddeurywiol ac 31% o bobl ifanc banrywiol 'seiberfwlio'. I lesbiaid ifanc, roedd y ganran hon yn is, sef 21% ac yn is eto ymhlith bechgyn hoyw, sef 14%.

Iechyd Meddwl

Mae ymchwil yn dangos bod pobl ifanc LHDT+ mewn perygl dybryd o brofi iechyd meddwl gwael. Er enghraifft, mae'r arolwg Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn Lloegr yn tynnu sylw at y cysylltiad rhwng pobl ifanc LHD ac iechyd meddwl (NHS Digital, 2017⁴¹). Yn ôl yr arolwg, roedd gan

⁴¹ Mental Health of Children and Young People in England 2017 [PAS] - GOV.UK (www.gov.uk)

34.9% o bobl ifanc LHDTDC+ anhwylder meddwl, o'i gymharu â 13.2% o bobl ifanc heterorywiol. Gweler hefyd erthygl Jadva et al. (2021⁴²).

Datgelodd data o Astudiaeth Cohort y Mileniwm fod iechyd meddwl gwael, gan gynnwys symptomau iselder a hunan-niweidio i gyd yn fwy amlwg ymhlith pobl ifanc LHD 14 oed na'u cyfoedion nad ydynt yn uniaethu fel LHD (Amos et al., 2020⁴³). Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod gan bobl ifanc LHD 14 oed hunan-barch is a'u bod deirgwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn anfodlon â'u bywyd.

Adlewyrchir canfyddiadau tebyg yn adroddiad Stonewall (2018⁴⁴), sef 'LGBT in Britain: Trans Report', ar sampl o bobl Prydain a ganfu fod 41% o bobl draws pan oeddent yn ymweld â gwasanaethau gofal iechyd yn ystod y flwyddyn cyn cwblhau'r arolwg, yn credu nad oedd gan staff gofal iechyd wybodaeth ddigonol am anghenion iechyd sy'n benodol i bobl draws. Mae 11% o bobl draws yn dweud eu bod yn cael gafael ar driniaethau meddygol ar gyfer eu trawsnewidiad dramor neu ar-lein gan wledydd eraill. Dangoswyd bod cael triniaeth feddygol sy'n cadarnhau rhywedd yn gwella iechyd meddwl pobl draws ac felly mae'n wasanaeth gofal iechyd hanfodol i'r boblogaeth hon. Mae Dhejne et al. (2016⁴⁵) yn canfod, er bod gan boblogaethau traws sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd lefelau uwch o salwch meddwl (o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol), bod y lefelau hyn wedi gwella ar ôl cael ymyrraeth feddygol sy'n cadarnhau rhywedd. Yn aml, byddai mesurau iechyd meddwl yn dychwelyd i werthoedd normadol ar ôl cael ymyrraeth feddygol sy'n cadarnhau rhywedd.

Gofynnodd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i fyfyrwyr o Gymru ym mlynnyddoedd 7-11 a oeddent yn uniaethu fel dyn, menyw neu pa un ai nad oedd yr un o'r ddau air yn eu disgrifio (Page et al., 2021⁴⁶). Nododd 1% o'u sampl (1,191 o bobl) nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw. O'r grŵp hwn, roedd gan 54% symptomau iechyd meddwl ar raddfa 'uchel iawn'. Mae hyn o'i gymharu ag 21% o fenywod a 15% o ddynion. Mae'n bwysig nodi hefyd fod ymchwil wedi awgrymu bod pobl ifanc draws anueuaidd yn wynebu risg uwch o orbryder, iselder a phryderon iechyd meddwl eraill o'i gymharu â phobl ifanc draws ddeuaidd (Thorne et al., 2018⁴⁷). Mae

⁴² Predictors of self-harm and suicide in LGBT youth: The role of gender, socio-economic status, bullying and school experience - PubMed (nih.gov)

⁴³ CLS | LGB teens at greater risk of poor mental health, new study finds (ucl.ac.uk)

⁴⁴ lgbt_in_britain_-_trans_report_final.pdf (stonewall.org.uk)

⁴⁵ Mental health and gender dysphoria: A review of the literature - PubMed (nih.gov)

⁴⁶ SHRN-NR-FINAL-23_03_21-en-AMENDED06.08.21.pdf

⁴⁷ A comparison of mental health symptomatology and levels of social support in young treatment seeking transgender individuals who identify as binary and non-binary - PubMed (nih.gov)

ymchwil o'r fath yn tynnu sylw at brofiadau amrywiol hunaniaethau LHDT+, a phwysigrwydd gwahaniaethu rhwng y profiadau unigryw hyn.

Addysg

Mae ymchwil a wnaed fel rhan o adroddiad Stonewall Cymru (2017) am fyfyrwyr ysgol Cymru yn nodi bod 58% o fyfyrwyr LHDT Cymru erioed wedi cael eu haddysgu am faterion LHDT, 84% erioed wedi cael eu haddysgu am ddeurywioldeb a 87% erioed wedi cael eu haddysgu am bobl draws na rhyweddau eraill. Fodd bynnag, mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r cwricwlwm cydberthynas a rhywioldeb i Gymru yn ddiweddar, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys pynciau cysylltiedig â LHDT+ (Llywodraeth Cymru, 2022⁴⁸).

Mae gan fyfyrwyr LHDT+ anghenion unigryw ac mae angen addysg iechyd a rhyw arbenigol arnynt. Dangosodd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2021) fod myfyrwyr yng Nghymru ym mlynnyddoedd 7-11 nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol na'r rhai a oedd yn uniaethu fel dyn neu fenyw. Er enghraifft, dywedodd 31% eu bod wedi anfon llun rhywiol o'u hunain o'i gymharu â dim ond 9% o ddynion a 10% o fenywod. Ar ben hynny, o'r rhai ym mlwyddyn 11, dywedodd 53% o fyfyrwyr nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw eu bod wedi cael cyfathrach rywiol, o'i gymharu â dim ond 25% o ddynion a menywod. Dywedodd 62% o fyfyrwyr nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw eu bod wedi cael cyfathrach rywiol am y tro cyntaf yn 13 oed neu'n iau, o'i gymharu â 24% o ddynion a 15% o fenywod.

Yn yr un modd, mae adroddiad Stonewall (2018⁴⁹) am brofiadau myfyrwyr mewn prifysgolion hefyd yn datgelu bod 60% o fyfyrwyr prifysgol traws yn dweud eu bod yn cael profiadau negyddol gyda chyfoedion yn eu prifysgol oherwydd eu hunaniaeth LHDT o'i gymharu â 22% o fyfyrwyr LHD nad ydynt yn uniaethu fel traws. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod myfyrwyr LHDT crefyddol a myfyrwyr LHDT ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o deimlo eu bod wedi'u heithrio gan fyfyrwyr eraill oherwydd eu rhywedd neu eu hunaniaeth rywiol, gyda 37% o'r ddau grŵp yn dweud hyn. Yn yr un modd, mae 36% o fyfyrwyr LHDT anabl yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn. Gellir cymharu hyn ag 28% o fyfyrwyr LHDT cyffredinol yn dweud eu bod yn teimlo eu bod

⁴⁸ cwricwlwm-i-gymru-cod-addysg-cydberthynas-rhywioldeb.pdf (llyw.cymru)

⁴⁹ lgbt_in_britain_universities_report.pdf (stonewall.org.uk)

wedi'u heithrio gan fyfyrwyr eraill. Gweler hefyd adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2021)⁵⁰.

Er bod ymchwil ar brofiad plant rhyngrywiol o addysg yn gyfyngedig, mae ymchwil o Awstralia yn dangos bod plant rhyngrywiol yn dweud eu bod yn cael profiadau negyddol sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth yn yr ysgol. Yn ôl Jones (2016), pan ofynnwyd i'w sampl (18 – 87 oed) fyfyrion ar eu profiad cyffredinol o'r ysgol ac addysg, dywedodd 34% o'r ymatebwyr fod eu profiad yn negyddol. Ar ben hynny, nid oedd 18% o fyfyrwyr rhyngrywiol yn mynychu'r ysgol uwchradd, o'i gymharu â 2% o boblogaeth gyffredinol Awstralia.

Iechyd / Addysg

O ran meysydd addysg iechyd eraill, roedd y rhai nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw yn fwy tebygol yn anghymesur o gymryd rhan mewn ymddygiadau iechyd peryglus eraill na dynion neu fenywod. Nododd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion fod 27% o'r rhai nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw wedi dweud eu bod yn ysmegu tybaco o leiaf bob wythnos ar hyn o bryd, o'i gymharu â 4% o ddynion a 3% o fenywod. Datgelwyd patrymau tebyg ar gyfer myfyrwyr a oedd yn yfed alcohol o leiaf bob wythnos (34% o'r rhai nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw, 9% o ddynion a 6% o fenywod) a myfyrwyr a gyfaddefodd eu bod yn defnyddio cyffuriau (37% o'r rhai nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw, 16% o ddynion a 13% o fenywod).

Nododd ymchwil sy'n defnyddio data o Astudiaeth Cohort y Mileniwm ar bobl ifanc 14 oed nad oedd pobl LHD yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymddygiadau peryglus o'i gymharu â myfyrwyr heterorywiol. Er enghraifft, roedd pobl ifanc LHD 14 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi yfed alcohol, ysmegu a defnyddio canabis, fodd bynnag, nid oeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi yfed alcohol a defnyddio canabis yn rheolaidd o'i gymharu â myfyrwyr heterorywiol. Yn wahanol i ymchwil y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion sy'n edrych ar rywedd, dangosodd adroddiad Amos et al., wrth edrych ar hunaniaeth rywiol, nad oedd pobl ifanc LHD 14 oed yn fwy tebygol o fod wedi cael rhyw na chymryd rhan mewn ymddygiadau rhywiol peryglus o'i gymharu â'u cyfoedion heterorywiol.

Mae'r dystiolaeth uchod yn amlygu'r angen am Gynllun Gweithredu LHDT+ ac yn dangos y ffyrdd y bwriedir i'r Cynllun Gweithredu gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc LHDT+.

⁵⁰ Amlygodd adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2021) hefyd fod y rhai ym mlynnyddoedd 7 – 11 nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw yn fwy tebygol o fod wedi cael eu bwlio (61%) na dynion (30%) a menywod (35%). Yn yr un modd, roedd y rhai nad oeddent yn uniaethu fel dyn na menyw yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi bwlio eraill (33%) o'i gymharu â dynion (18%) a menywod (11%).

Bydd cyngor gweinidogol yn cynnwys yr effeithiau ar Hawliau Plant, o ran y gwelliannau i hawliau plant LHDTC+, nid yn unig ar ffurf camau gweithredu sydd o fudd i bobl LHDTC+ o bob oed, ond hefyd ar ffurf camau gweithredu penodol sydd wedi'u hanelu at hawliau plant fel

- Adolygu'r llwybr Datblygu Hunaniaeth Rhywedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru
- Darparu canllawiau traws cenedlaethol i ysgolion ac awdurdodau lleol
- Dylunio a gweithredu dull ysgol gyfan sy'n gwbl gynhwysol o ran pobl LHDTC+
- Cefnogi pobl ifanc LHDTC+ a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig
- Cefnogi'r sector gwaith ieuenctid LHDTC+

CYFATHREBU Â PHLANT A PHOBL IFANC

Cafodd fersiwn hawdd ei deall yn ogystal â fersiwn plant o'r Cynllun eu darparu ar gyfer yr ymgynghoriad.

Bydd fersiynau tebyg o'r Cynllun terfynol yn cael eu comisiynu a'u cyhoeddi yn dilyn cyhoeddi'r prif Gynllun Gweithredu.

MONITRO AC ADOLYGU

Bydd cynnydd Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cael ei adrodd arno'n flynyddol, a bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys y diweddaraf am y camau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

B. ASESIAID O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o bobl erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu hefyd wedi'i gynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym rwymedigaeth statudol hefyd i ystyried effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried y modd y mae ein polisiau'n effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Ar ddechrau'r chweched Senedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen waith bum mlynedd ar gyfer gwireddu "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg" yn ystod 2021-26 (Llywodraeth Cymru 2022a). Felly, rydym yn awgrymu darllen y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ hwn ar y cyd â strategaeth a chynlluniau y Gymraeg, gan ystyried rôl y Gymraeg ar draws y gweithgareddau a amlinellir isod. Mae'r Gymraeg, a'r cyfrifoldeb dros weithredu i'w diogelu, yn perthyn i ni i gyd. Mae gan bawb eu rôl, waeth ble maen nhw'n byw, na faint o Gymraeg y gallan nhw ei siarad. Gobeithiwn weld mwy o sefydliadau ac arweinwyr cyhoeddus yn cymryd cyfrifoldeb dros yr iaith.

Esiampl o'r camau gweithredu:

Datblygu a gweithredu dull ysgol gyfan sy'n cynnwys pobl LTDTTC+	Cefnogi ysgolion i ddilyn gofynion mandadol y Cod a'r Canllawiau statudol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n LHDTTC+-gynhwysol.	Mae gan ysgolion a lleoliadau addysgol y pecynnau cymorth sydd eu hangen arnynt i weithredu'r Cod a'r Canllawiau ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn llwyddiannus ym mhob lleoliad addysgol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.
	Sicrhau bod adnoddau addysgol ategol yn cynnwys deunyddiau sy'n LHDTTC+-gynhwysol, yn y Gymraeg a'r Saesneg.	
	Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i bob aelod o'r staff mewn	Mae amrywiaeth o lenyddiaeth ac adnoddau sy'n LHDTTC+-gynhwysol

ysgolion a lleoliadau addysgol er mwyn deall elfennau craidd darparu addysg sy'n LHDTC+ gynhwysol.

ar gael i bob ysgol a lleoliad addysgol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cefnogi ysgolion yng Nghymru, ynghyd ag Awdurdodau Lleol, i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac yn benodol o dan y gofyniad i gyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb.

Mae pobl ifanc LHDTC+ Cymraeg eu hiaith yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn amgylchedd eu hysgol, eu haddysg, ac mewn llenyddiaeth Gymraeg.

Sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg LHDTC+ fynediad at wasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg.

Sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid a ariennir ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg a pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n cael grantiau a gwasanaethau a ariennir.

Bydd siaradwyr Cymraeg LHDTC+ yn gallu cael gwasanaethau yn yr iaith o'u dewis.

Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau LHDTC+

Gweithio ar y cyd â sefydliadau partner i gefnogi cymunedau LHDTC+ i gasglu a rhoi

Mae diwylliant a hanes pobl LHDTC+ yn cael eu cynrychioli'n well

yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru.

casgliadau i archifau ac amgueddfeydd lleol.

yn y sector diwylliant.

Cydweithredu i ddefnyddio casgliadau cenedlaethol a lleol er mwyn cefnogi gweithgareddau *Pride* ledled Cymru, gan gynnwys yn ystod mis *Pride*.

Mae anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu yn y gynrychiolaeth o ddiwylliant pobl LHDTC+.

Defnyddio casgliadau cenedlaethol a lleol i ddathlu a rhannu straeon a hanesion pobl LHDTC+, gan ddarparu cyllid pan fo hynny'n briodol.

Gwella cynrychiolaeth LHDTC+ yn y sector Diwylliant yng Nghymru ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel Bwrdd ac ar lefel y gweithlu a gwirfoddolwyr.

Gweithio ar y cyd â sefydliadau LHDTC+ a phartneriaid allweddol i sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu mewn perthynas â chynrychiolaeth pobl

LHDTC+ yn y sector
diwylliant.
